Healthcare Inspectorate Wales
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Practis Deintyddol Penmaenmawr

Dyddiad Arolygu: 21 Mawrth 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 22 Mehefin 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn**: 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.hiw.org.uk


ISBN Digidol 978-1-4734-9571-5 © Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 2

2. Cyd-destun .......... 4

3. Crynodeb .......... 5

4. Canfyddiadau .......... 6

Ansawdd Profiad y Claf .......... 6

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 9

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 11

5. Y Camau Nesaf .......... 12

6. Methodoleg .......... 13

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru, boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cynhaliodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Penmaenmawr, y Neuadd Feddygol, Pant yr Afon, Penmaenmawr, Conwy, LL34 6BA, ar 21 Mawrth 2017.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd Practis Deintyddol Penmaenmawr yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddwyd rhybudd cyn cynnal arolygiadau deintyddol ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth – Rydym yn ystyried sut y mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae gwasanaethau yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 o’r adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Penmaenmawr yn bractis hirsefydlog sydd wedi bod yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Conwy ers ei sefydlu ym 1992.

Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae Practis Deintyddol Penmaenmawr yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys y prif ddeintydd ac un nyrs ddeintyddol.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, canfuom fod Practis Deintyddol Penmaenmawr yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol o ansawdd uchel ac mae gan ei gleifion barch mawr ato.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Canfuwyd tystiolaeth fod hwn yn wasanaeth sy'n cael ei redeg yn dda, gyda systemau effeithiol i gefnogi rheolaeth ac arweinyddiaeth y practis yn gyffredinol.
- Roedd y tîm staff yn ymddangos yn hapus yn eu swyddogaethau ac roeddent yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn fedrus.
- Roedd y cyfleusterau clinigol yn cynnwys digon o offer ac roeddent yn ymddangos yn lân a thaclus.
- Roedd trefniadau priodol ar gael ar gyfer defnyddio Pelydrau-X yn ddiogel.
- Roedd nodiadau clinigol y cleifion o safon uchel.

Dyma'r hyn yr ydym yn argymell y gallai'r practis ei wella:

- Adolygu ei bolisi ymdrin â chwynion presennol gan sicrhau bod gwybodaeth glir ar gael ar gyfer codi cwynion ynglŷn â thriniaeth breifat a thriniaeth y GIG.
- Cyflwyno log i gofnodi pryderon anffurfiol y cleifion.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Canfuom dystiolaeth fod y practis wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a dderbyniwyd oddi ar yr holiaduron cleifion yn gadarnhaol, ac roeddent yn cadarnhau bod y cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn.**

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis gennym i ddosbarthu holiaduron AGIC er mwyn cael barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelwyd deunaw ohonynt atom ni. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

> *'Wedi cael croeso mawr. Wedi gweld yr holl gynlluniau triniaeth. Cyfeillgar iawn drwy'r amser'*
>
> *'Y profiad deintyddol gorau a gefais i erioed'*
>
> *'Maen nhw wedi tawelu fy meddwl i'n llwyr. Marciau llawn a mwy, y practis gorau y bûm i ynddo erioed'*
>
> *'Mae'n hawdd iawn mynd at bob aelod o'r tîm. Maen nhw i gyd yn gaffaeliad i'r practis'*
>
> *'Gofal deintyddol rhagorol ac mae'r nyrs ddeintyddol [enw'r aelod o staff] yn wych'*
>
> *'Gwneud i mi deimlo'n gyfforddus bob amser'*

<u>Gofal gydag urddas</u>

Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent wedi eu derbyn yn y practis a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael croeso gan y staff. Gwelsom hefyd agwedd garedig, gyfeillgar a phroffesiynol y staff tuag at y cleifion.

Roedd y practis wedi sefydlu trefniadau i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys ardaloedd i'r cleifion gael sgyrsiau preifat gyda'r staff a phan fo'r staff yn ymdrin â negeseuon ffôn oddi wrth gleifion.

<u>Gofal amserol</u>

Mae'r practis yn ceisio gwneud yn siŵr y darperir gofal deintyddol mewn modd amserol. O'r deunaw holiadur a gwblhawyd, tri yn unig o'r cleifion oedd wedi profi mân achosion o oedi o ran cael eu gweld gan y deintydd ar ddiwrnod yr

apwyntiad. Eglurodd un claf yn glir i ni mai'r rheswm dros hynny oedd mai apwyntiad brys ydoedd.

O'r deunaw holiadur, roedd dau glaf ar bymtheg yn nodi eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar ofal y tu allan i oriau'r practis. Roedd arwydd ar fynedfa allanol y safle a oedd yn nodi'r manylion cyswllt brys ac roedd poster wedi ei arddangos yn yr ardal aros hefyd. Darperir manylion cyswllt yn y daflen gwybodaeth cleifion ac ar eu cardiau apwyntiad hefyd.

Cadw'n iach

Roedd digonedd o wybodaeth benodedig am hybu iechyd deintyddol ar gael, a oedd yn golygu bod gwybodaeth ar gael i'r cleifion a allai eu helpu i ofalu am iechyd y geg ar gyfer hwy eu hunain. Roedd sgrin deledu ar gael hefyd ym mhob ystafell driniaeth, gan alluogi'r deintydd i ddangos i'r cleifion fideo neu arwyddluniau o driniaeth iechyd y geg a sicrhau bod y cleifion yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd rhestrau prisiau wedi eu harddangos yn glir yn y dderbynfa/ardal aros hefyd.

Gofal unigol

Roedd ymatebion oddi ar holiaduron y cleifion yn dangos i ni fod yr holl gleifion o'r farn eu bod yn cael digon o gyngor ar eu triniaeth unigol, eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn, a'u bod bob amser yn cael croeso.

I fyny grisiau serth yr eir i mewn i'r practis. Dywedodd y practis wrthym fod pob ymdrech wedi ei gwneud i ddarparu mynediad cadeiriau olwyn. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl gosod ramp oherwydd lleoliad y grisiau.

Roedd un tŷ bach neillryw ar gael i'r cleifion ac un tŷ bach ar gyfer y staff. Roedd y ddau gyfleuster wedi eu harwyddo'n glir ac yn ymddangos yn lân.

Gwelsom fod gweithdrefn gwyno wedi ei sefydlu, a oedd wedi ei harddangos yn yr ardal aros. Adolygwyd polisi'r practis ar ymdrin â chwynion gennym ac, ar adeg yr arolygiad, gwelwyd nad oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion. Mae polisi'r practis ar ymdrin â chwynion yn cynnwys triniaethau preifat a thriniaethau'r GIG, a chynghorwyd y practis i adolygu'r polisi er mwyn sicrhau bod y manylion am sut i godi cwyn ynglŷn â thriniaeth breifat neu driniaeth y GIG yn cael eu hegluro cymaint â phosibl er mwyn i'r cleifion beidio â gorfod gofyn i'r staff am gyngor.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis adolygu ei bolisi presennol ar ymdrin â chwynion a sicrhau ei fod yn eglur, er mwyn i'r cleifion wybod sut i godi cwyn ynglŷn â thriniaeth breifat a thriniaeth y GIG.***

Dywedodd y practis wrthym eu bod yn ymdrin ag unrhyw bryderon anffurfiol ar unwaith. Fodd bynnag, nid oedd y rhain wedi eu cipio mewn log canolog. Cynghorwyd y practis gennym i gofnodi pryderon anffurfiol mewn log canolog er mwyn gallu nodi unrhyw themâu cyffredinol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid sicrhau bod log canolog ar gael i gofnodi pryderon anffurfiol y cleifion.***

Trafodwyd trefniadau'r practis ar gyfer gofyn am adborth oddi wrth y cleifion yn weithredol. Mae'r practis yn gwneud hyn drwy ddarparu holiaduron i'r cleifion yn yr ardal aros. Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi rhoi sylw i'r adborth ac wedi ei ddefnyddio er mwyn dylanwadu ar newidiadau yn y practis. Fe wnaethom ni gynghori'r practis i arddangos dadansoddiad o adborth y cleifion, gan ddangos bod eu hadborth unigol wedi ei gipio a'i fod wedi derbyn sylw er mwyn ychwanegu at welliannau dysgu a gwasanaeth.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis gyhoeddi/arddangos dadansoddiad o adborth y cleifion.***

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Canfuom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol, er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Canfuom y darperir gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer y cleifion. Roedd nodiadau clinigol y cleifion o safon uchel.**

<u>Gofal diogel</u>

Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer perthnasol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Gwelwyd bod yr ystafelloedd triniaeth yn lân ac mewn cyflwr da.

Nodwyd bod profion dyfeisiau cludadwy blynyddol wedi eu cynnal ar gyfer yr holl offer trydanol, gan sicrhau bod y dyfeisiau bach i gyd yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd diffoddyddion tân ar gael ym mhob rhan o'r adeilad a gwelsom dystiolaeth o gontract cyfredol ar gyfer cynnal a chadw offer tân. Roedd cyfarwyddiadau ar gyfer yr allanfeydd brys i'w gweld yn glir ac roedd poster Iechyd a Diogelwch wedi ei arddangos.

Canfuom y cedwir yr holl gemegolion yn ddiogel ac nad oedd unrhyw rai wedi eu gadael mewn ardaloedd cyhoeddus. Roedd ffeil ar gael yn cynnwys nifer o ddalenni data yn ymwneud â'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) ac roedd asesiadau risg perthnasol ar gael a oedd wedi eu hadolygu'n ddiweddar.

Gwelwyd dogfennau cyffredinol ar gyfer asesiadau risg iechyd a diogelwch ar y dydd ac roeddent wedi eu hadolygu'n ddiweddar.

Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau priodol ar gael ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel, a gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer y deintydd a'r nyrs ddeintyddol.

Roedd trefniadau derbyniol ar gael ar gyfer diogelu cleifion a'r staff pan ddefnyddid offer pelydr-X. Gwelsom dystiolaeth o wiriadau diogelwch, cynnal a chadw offer a rhoi prawf ar yr offer pelydr-X.

Roedd y practis wedi sefydlu gweithdrefnau a oedd yn dangos sut i ymateb i achosion brys meddygol cleifion ac roedd y rhain wedi eu harddangos ym mhob ystafell. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi derbyn yr holl hyfforddiant perthnasol ar gymorth cyntaf a dadebru brys, gan gynnwys hyfforddiant uwch ar gynnal bywyd ac anaffylacsis.

Roedd y cyffuriau brys wedi eu cadw'n ddiogel ac mewn lleoliad a oedd yn golygu eu bod ar gael ar unwaith pe byddai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth fod system effeithiol wedi ei sefydlu ar gyfer gwirio'r offer a'r cyffuriau brys, er mwyn sicrhau bod y dyddiad arnynt yn gyfredol a'u bod yn barod i'w defnyddio.

Roedd gan y practis gyfleusterau penodedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, fel yr awgrymir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd yr ardal yn ymddangos yn lân ac nid oedd llanastr ynddi. Roeddem yn fodlon fod gweithdrefnau priodol wedi eu sefydlu ar gyfer lleihau'r risg o draws-heintio er mwyn diogelu'r cleifion a'r staff. Roedd y dull o gadw offer yn rhagorol ac wedi ei drefnu'n dda, gyda'r holl offer wedi eu lapio neu eu gorchuddio mewn droriau.

Roeddem yn gallu gweld bod y practis wedi sefydlu system i reoli gwastraff yn briodol a diogel. Roedd dogfennau contract ar gael ar gyfer cael gwared â gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom hefyd fod y gwastraff wedi ei wahanu i'r bagiau/cynhwysyddion lliw dynodedig yn unol â'r dull cyfredol o waredu ysbwriel.

Canfuom fod y practis wedi sefydlu polisi diogelu ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed a bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant ar y pwnc hwn.

<u>Gofal effeithiol</u>

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir drwy'r amser. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau perthnasol wedi eu cwblhau, megis ansawdd pelydrau-X, caniatâd cleifion, argyfyngau, rhagnodi, rheoli heintiau, a gwastraff.

Roedd tystiolaeth fod y practis yn cadw cofnodion clinigol rhagorol. Archwiliwyd sampl o gofnodion y cleifion gennym a chanfod bod cofnodion gofal y cleifion yn cynnwys digon o wybodaeth am drafodaethau a gynhaliwyd ynglŷn â dewisiadau, costau, risgiau, buddiannau triniaethau, a sut yr oedd y practis yn cael caniatâd y cleifion. Roedd tystiolaeth hefyd o gynllunio triniaethau, a rhoddid cynllun triniaeth i'r cleifion pan oedd angen. Roedd y deintydd yn dogfennu bod cyngor wedi ei roi ar sgrinio canser a rhoi'r gorau i ysmygu.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Canfuom dystiolaeth fod hwn yn bractis a oedd yn cael ei redeg yn dda iawn a bod ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a rhoi sylw i fanylion. Roedd y tîm staff yn ymddangos yn hapus yn eu swyddogaethau ac roeddent yn fedrus wrth gyflawni eu dyletswyddau a chyfrifoldebau.**

Mae Practis Deintyddol Penmaenmawr wedi darparu gwasanaethau i gleifion yng Nghonwy ers iddo gael ei sefydlu ym 1992.

Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Mae'r deintydd a'r nyrs wedi gweithio gyda'i gilydd ers mwy na 25 mlynedd ac roedd yn amlwg bod perthynas dda rhyngddynt. Roeddent yn dweud wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw broblemau neu bryderon â'i gilydd.

Gwelsom fod y deintydd a'r nyrs ddeintyddol wedi dilyn amrywiaeth eang o hyfforddiant, gan fodloni a mynd y tu hwnt i ofynion Datblygiad Proffesiynol Parhaus o ran nifer yr oriau wedi eu neilltuo i fynd i sesiynau hyfforddi. Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd tîm misol a gwerthusiadau staff blynyddol hefyd.

Gwelwyd tystiolaeth i gadarnhau bod gan y deintydd a'r nyrs ddeintyddol archwiliad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'u bod wedi eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd tystysgrif AGIC y deintydd wedi ei harddangos, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, a gwelsom gadarnhad o yswiriant indemniad.

Canfuom fod y practis yn arddangos enw a chymhwyster y deintydd, ei fanylion cyswllt brys, ac oriau agor y practis.

Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwneiddio Hepatitis B ar gyfer yr holl staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis.

Edrychwyd ar y polisïau a gweithdrefnau a oedd wedi eu sefydlu a chanfuom eu bod yn adlewyrchu'r arferion gwirioneddol, eu bod wedi eu hadolygu'n rheolaidd, ac y defnyddid system rheoli fersiynau ar eu cyfer. Fe wnaethom ni awgrymu wrth y practis y dylent sicrhau bod yr holl staff yn llofnodi'r polisïau a gweithdrefnau wrth eu hadolygu, er mwyn dangos eu bod wedi eu darllen a'u deall.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae’r arolygiad hwn wedi arwain at y ffaith bod angen i’r practis deintyddol lunio cynllun gwella (Atodiad A) er mwyn rhoi sylw i’r canfyddiadau allweddol sy’n deillio o’r arolygiad.

Dylai’r cynllun gwella nodi’n glir pa bryd a sut y rhoddir sylw i’r canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Penmaenmawr, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i’r cam(au) gweithredu a gymerir gan y practis mewn ymateb i’r materion a nodir yn y cynllun gwella fod yn benodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amserol. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun gynnwys digon o fanylion ar gyfer darparu sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â’r materion sydd ynddo.

Lle mae’r camau gweithredu yng nghynllun gwella’r practis yn parhau i fod heb eu cymryd a/neu eu bod ar y gweill, dylai’r practis ddarparu diweddariadau i AGIC i gadarnhau pa bryd y rhoddwyd sylw i’r rhain.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, fe’i cyhoeddir ar wefan AGIC a bydd yn cael ei werthuso yn rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth wraidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud ar ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**

Ffigur 1




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi ei gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[1] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[2] Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

[1] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

Yn ystod yr arolygiad, adolygwyd dogfennau a gwybodaeth gennym o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau â'r staff, gan gynnwys deintyddion a'r staff gweinyddol
- Sgyrsiau â'r staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan oedd hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad, er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd at unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A o'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig ciplun o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Penmaenmawr

## Dyddiad yr Arolygiad: 21 Mawrth 2017

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| Tudalen 8 | Dylai'r practis adolygu ei bolisi ymdrin â chwynion presennol a sicrhau ei fod yn glir, er mwyn i'r cleifion wybod sut i godi cwyn ynglŷn â thriniaeth breifat a thriniaeth y GIG. | Safonau Iechyd a Gofal 6.3<br>Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1<br>Gweithio i Wella | Rydym wedi cywiro'r poster wal a'r holl wybodaeth i ddangos manylion llawn i'r cleifion am sut i godi cwyn ar gyfer cleifion preifat a chleifion y GIG. | | |
| Tudalen 8 | Dylid creu log canolog ar gyfer cofnodi pryderon anffurfiol cleifion. | Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1.7 | Mae log canolog wedi ei ddylunio ac mae ar gael ar gyfer unrhyw bryderon anffurfiol. | | |
| Tudalen 8 | Dylai'r practis gyhoeddi/arddangos dadansoddiad o adborth y cleifion. | Safonau Iechyd a Gofal 6.3 | Defnyddir poster adborth erbyn hyn. | | |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| | Amherthnasol | | | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| | Amherthnasol | | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** **Mrs Anne Harris**

**Teitl:** **Rheolwr y Practis / Gweithiwr Gofal Deintyddol Proffesiynol**

**Dyddiad:** **9 Mai 2017**